PWYLLGOR PENODI B

Dydd Iau, 4 Tachwedd 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd L.M. Stephens (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
J.M. Charles, D.M. Cundy (yn lle J.G. Prosser), C.A. Davies (yn lle L.D. Evans), E. Dole, W.T. Evans, P.M. Hughes (yn lle J.A. Davies), R. James a/ac A. Lenny (yn lle C.A. Campbell)

Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:
W. Walters, Prif Weithredwr
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
H. Daniels, Ymgynghorydd Datblygu Corfforaethol;
A. Machin, Partner Busnes Arweiniol (Dysgu a Datblygu);
S. Dougherty, Ymgynghorydd Dylunio Trefniadaeth;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.
Rhith-Gyfarfod: 2.30 yp - 6.30 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr C.A. Campbell, J.A. Davies, S.L. Davies, J.S. Edmunds, L.D. Evans a J. Prosser.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. COFNODION - 17EG CHWEFROR 2021

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2021 gan eu bod yn gofnod cywir.

4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf sef gwybodaeth ynghylch ymgeiswyr oedd yn cynnig am swydd gan yr Awdurdod.

5. NODIADAU GWEITHREDU - PANEL RHESTR FER A GYNHALIWYD AR 7 HYDREF 2021

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Panel Rhestr Fer oedd wedi ei gynnal ar 7 Hydref 2021.

6. CAEL CYFLWYNIADAU A CHYFWELD Â'R YMGEISWYR SYDD AR Y RHESTR FER AR GYFER Y SWYDD PENNAETH LLE A CHYNALIADWYEDD AC YSTYRIED PENODI

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

Amlinellodd y Cadeirydd y broses ddethol hyd yn hyn a'r drefn a awgrymwyd ar gyfer y cyfarfod. Nododd y Pwyllgor y byddai pedwar o'r ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael cyfweliad.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan y pedwar ymgeisydd a chafodd aelodau'r Pwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau i'r ymgeiswyr.

Hyd y Cyfarfod

Yn dilyn y cyflwyniadau a'r cyfweliadau, tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o'r Weithdrefn Gorfforaethol - 'Hyd y Cyfarfod' - ac at y ffaith bod y cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL atal Rheolau o'r Weithdrefn Gorfforaethol er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried yr eitemau a oedd yn weddill.

Cafodd y Pwyllgor adborth gan swyddogion mewn perthynas â'r broses recriwtio ac asesu a'i gasgliadau. Yn dilyn trafodaeth -

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi Mr R. Griffiths i'r swydd Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd.

[Galwyd Mr R. Griffiths yn ôl i'r cyfarfod, a dywedodd ei fod yn derbyn y swydd.]

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**